**ADRODDIAD I’R CYD-BWYLLGOR**

**24 CHWEFROR 2016**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

**Pwnc:** Cynllun Busnes Rhanbarthol 2015-18 – Atodiadau Awdurdod Lleol

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno drafft o Atodiadau Awdurdod Lleol y Cynllun Busnes i’r Cyd-bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Cynllun Busnes 2015-18 yn gosod gweledigaeth tair blynedd, amcanion a blaenoriaethau ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth, a chymeradwywyd y cynllun gan y Cyd-bwyllgor mewn cyfarfod ar 12 Tachwedd 2015.

2.2 I gyd-fynd â’r cynllun busnes cyffredinol cynhyrchir atodiad lleol yn benodol ar gyfer pob awdurdod lleol. Gweler isod ddetholiad o’r model cenedlaethol ar gyfer gweithio’n rhanbarthol (Tachwedd 2015).

- Bydd yr holl awdurdodau lleol yn darparu i'w consortiwm ddatganiad o unrhyw newidiadau y maent yn bwriadu eu gwneud dros y 12 mis nesaf o ran trefniadaeth ysgolion a'u trefniadau arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaethau allweddol.
- Bydd yr atodiad a'r datganiad yn cael eu trafod yn unigol gyda phob awdurdod drwy gyfarfod gyda'r swyddog arweiniol a'r aelod etholedig sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau plant ac addysg.

- Bydd Arweinydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r consortia'n eu galluogi i gynnal trosolwg o'u dyletswyddau statudol a sicrhau atebolrwydd yn eu cylch.
- Bydd angen i atodiad y cynllun busnes gydweddu â chynlluniau corfforaethol eraill yr awdurdod lleol a'r Cynllun Sengl.
- Caiff unrhyw bryderon neu geisiadau gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â chynnwys y cynllun busnes drafft na all y rheolwr gyfarwyddwr a'r awdurdod cyfansoddol gytuno arnynt eu hadrodd i aelodau'r Cyd-bwyllgor wrth iddynt ystyried y cynllun drafft.
- Wedi cytuno ar atodiad cynllun busnes ar gyfer pob awdurdod lleol, gallai'r atodiad hwnnw, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, ffurfio Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y consortiwm a'r awdurdod lleol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Mae'r Atodiadau Lleol yn dilyn yr un fformat ac yn manylu ar y gyd-weledigaeth a'r pwrpas ynghyd â'r Amcanion penodol, Cynnig Cynllun Busnes Craidd GwE, Blaenoriaethau Lleol, Camau Gweithredu a Deilliannau

3.2 Caiff cynnydd yn erbyn yr Atodiadau Lleol ei fonitro ar y cyd gan yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth perthnasol a Swyddogion yr ALl, gan adrodd yn ôl i'r Rhwydwaith Gwella Ysgol.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo Atodiadau Awdurdod Lleol y Cynllun Busnes.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â'r Rhwydwaith Gwella Ysgolion, Bwrdd Rheoli GwE a'r Bwrdd Ymgynghorol wrth ddatblygu'r ddogfen.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiadau Lleol Cynllun Busnes GwE

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yma yn cwblhau y gwaith ar greu y Cynllun Busnes a ystyriwyd yn y Cyd-Bwyllgor yn Nhachwedd 2015. Swyddogaeth y Cyd-Bwyllgor yw cytuno a mabwysiadu y Cynllun Busnes blynyddol gyda mewnbwn ac arweiniad gan y Bwrdd Ymgynghorol a'r Bwrdd Rheoli.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r awduron yn deall bydd angen cyflawni'r Cynllun Busnes arfaethedig o fewn yr adnoddau fydd ar gael i GwE, fel sydd wedi'i amlinellu ar gyfer 2016/17 yn yr adroddiad 'Cyllideb Sylfaenol' sydd ar raglen y cyfarfod yma o'r Cydbwyllgor.